**Cofnod Penderfyniadau:**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**Decision Record:**
**Police and Crime Commissioner for North Wales**

| | |
|---|---|
| **Rhan / Part 1** | **Cyf/Ref:2020.10** |
| **Teitl:** | **Title:** |
| Plant a Effeithir gan Rieni yn y Carchar | Children Affected by Parents in Prison |
| **Crynodeb Gweithredol:** | **Executive Summary:** |
| Cais yw hwn i barhau'r cyfraniad ariannol at Brosiect Plant a Effeithir gan Rieni yn y Carchar.<br><br>Pwrpas y prosiect aml-asiantaeth hwn yw gwella dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol sy'n wynebu plant a theuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan garcharu yng Ngogledd Cymru, adnabod y plant hynny a gwella eu mynediad nhw at gefnogaeth.<br><br>Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu teuluoedd yng Ngogledd Cymru sy'n cael eu heffeithio gan garcharu ac i beri newid i hyn drwy waith ataliol a thargedu cefnogaeth, mae deg corff cyhoeddus ar draws y rhanbarth (gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru) ynghyd â CEM Berwyn, wedi apwyntio tîm bach rhanbarthol yn ddiweddar i gyd-gysylltu'r gwaith ar draws y rhanbarth a gyrru'r prosiect hwn ymlaen. | This is a request to continue contributing financially to the Children Affected by Parental Imprisonment Project.<br><br>The purpose of this multi-agency project is to improve understanding of the current situation faced by children and families affected by imprisonment in North Wales, identify those children and increase access to support.<br><br>In order to raise awareness of the issues faced by North Wales families affected by imprisonment and to drive change by way of prevention work and targeted support, ten public bodies from across the region (including the Office of the Police and Crime Commissioner and North Wales Police) and HMP Berwyn, have recently appointed a small regional cross-cutting team to drive forwards this project. |
| **Goblygiadau:** | **Implications:** |
| **Ariannol:** Mae £9,500.00 ar gael o Grant Trosedd ac Anghyfiawnder y Comisiynydd Heddlu a Throsedd 20/21 i gynorthwyo'r gwaith arloesol hwn. Bydd y cyfraniad hwn yn cynorthwyo dau safle, Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol a Swyddog Rhaglen.<br><br>**Cyfreithiol:** Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn galluogi'r Comisiynydd i roi grantiau i bartneriaid, sefydliadau cyhoeddus neu grwpiau gwirfoddol a all gynorthwyo blaenoriaethau diogelwch cymunedol a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.<br><br>**Cynllun Heddlu a Throsedd:** Gwnaiff y maes gwaith hwn gynorthwyo'r Comisiynydd fodloni ei brif ddyletswydd statudol o gyflwyno gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon yng Ngogledd Cymru. Monitrir y gwaith hwn drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogelach lle cyflwynir | **Financial:** £9,500.00 has been made available from the Crime and Disorder Grant 20/21 provided by the Police and Crime Commissioner to support this innovative work. This contribution supports two positions, a Regional Programme Manager and a Programme Officer.<br><br>**Legal:** The Police Reform and Social Responsibility Act 2011 enables the Commissioner to award grants to partners, public organisations or voluntary groups that can support the community safety priorities identified in the Police and Crime Plan.<br><br>**Police and Crime Plan:** This area of work will help the Commissioner meet his main statutory duty of delivering an effective and efficient policing service in North Wales. This work will be monitored through the Safer Communities Board where performance updates will be tabled. |

# Cofnod Penderfyniadau:
# Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

# Decision Record:
# Police and Crime Commissioner for North Wales

| | |
|---|---|
| diweddariadau ar berfformiadau. | |
| **Prif Weithredwr a Swyddog Monitro:** | **Chief Executive and Monitoring Officer:** |
| Rwy'n cadarnhau fod hwn yn gais priodol i gael ei gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. | I confirm that this is an appropriate request to be submitted to the Police and Crime Commissioner. |
| **Llofnod / Signature:** | **Dyddiad/Date: 26.04.20** |

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth a sylwadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd** | **Approval and comments of Police and Crime Commissioner** |
| Gallaf gadarnhau fy mod yn cymeradwyo'r hyn a nodwyd uchod | I confirm that the above request has my approval |
| **Llofnod / Signature:** | |

*Arfon Jones*
*Comisiynydd Heddlu a Throsedd - Police and Crime Commissioner*

Dyddiad/Date: 27.04.20